WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyhoeddwyd: Medi 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 431A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins, Sara-Jane Byrne ac Allison Rees o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2016-17 6

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Perfformiad 10

Y defnydd o adnoddau 16

Llywodraethu 17

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2015-16 21

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2014-15 23

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 25

Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015-16 27

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Awst 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod:

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| Adroddiad cynnydd ym maes Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o drefniadau i fynd i'r afael ag argymhellion sy'n deillio o archwiliadau allanol, arolygiadau a gwaith rheoleiddio, a chynigion ar gyfer gwella. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad Chwaraeon a Hamdden | Adolygiad o ddatblygiad strategaeth chwaraeon a hamdden. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o Wastraff | Trosolwg o gynnydd y Cyngor wrth iddo ystyried newidiadau i'w wasanaeth gwastraff ac ailgylchu er mwyn cyrraedd targedau statudol yn y dyfodol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Rhaglen Eiddilwch Gwent | Adolygiad o Raglen Eiddilwch Gwent i asesu a oedd y Rhaglen wedi sicrhau gwelliannau yn unol â disgwyliadau sefydliadau unigol. |
| Estyn: Gwerthusiad o berfformiad ysgolion | Adolygiad o berfformiad mewn amrywiaeth o feysydd mewn ysgolion o fewn y Cyngor. |
| AGGCC: Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad | Gwerthusiad o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. |
| Comisiynydd y Gymraeg | Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Blynyddol 2014-15 y Cyngor. |

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol | • Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (i'w gyhoeddi)<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl (i'w gyhoeddi)<br>• Trefniadau cynghorau ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector (i'w gyhoeddi)<br>• Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru (cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015)<br>• Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – adolygiad cynnar (cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015)<br>• Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru (cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015)<br>• Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? (cyhoeddwyd ym mis Hydref 2015)<br>• Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden (cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015) |

## Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2016-17

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant a'i ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur.

b Nododd AGGCC fod y Cyngor wedi parhau i ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau mewn ffordd strwythuredig a threfnus yn barod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac adlewyrchwyd hyn hefyd yn yr amcanion a amlinellwyd yn y cynllun gwella sengl lleol.

c Roedd gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol effeithiol a hanes o sicrhau arbedion ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid oedd ganddo gynllun ariannol tymor canolig cynhwysfawr a thameidiog oedd ymdrechion i fonitro cynnydd o ran arbedion.

ch Ymatebodd y Cyngor i'w bwysau ariannol yn 2012 drwy adolygu ei ganolfannau hamdden a'i gyfleusterau adloniant a hamdden awyr agored, ond o gofio ei sefyllfa ariannol gryfach o 2016-17 ymlaen, gall y Cyngor bellach fynd ati i adolygu ei wasanaethau chwaraeon a hamdden mewn ffordd fwy cyfannol a strategol er mwyn sicrhau y gallant, ar y cyd, ddiwallu anghenion ei ddinasyddion yn y dyfodol.

d Roedd y Cyngor yn ystyried opsiynau ar gyfer ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu mewn ffordd bwyllog ac aeddfed, ac roedd wedi nodi meysydd y mae angen eu hatgyfnerthu.

dd Ymateb y Cyngor i'n hargymhellion a'n cynigion ar gyfer gwella oedd i gefnogi gwelliannau i'w drefniadau hunanwerthuso a chraffu, ond roedd angen gwneud rhagor o waith er mwyn ymdrin yn llawn â gwendidau ym meysydd Archwilio Mewnol ac Adnoddau Dynol, yr oedd rhai ohonynt yn hirsefydledig.

e Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi dangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cymunedol cynyddol, ond nid oedd wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod canlyniadau yn bendant wedi gwella, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ar ddyfodol y rhaglen.

f Roedd y Cyngor wedi gwneud gwelliannau pellach i'w drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd data, sy'n golygu bod data yn fwyfwy cadarn.

g Mae ymchwiliadau mewnol yn mynd rhagddynt o hyd i faterion sy'n ymwneud â rhai uwch swyddogion. O ganlyniad, mae nifer o swyddi dros dro ar lefel uwch reolwyr a bydd rhywfaint o ansicrwydd yn parhau o fewn y Cyngor nes bod yr ymchwiliadau mewnol yn dod i ben.

## Argymhellion

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella yn y gwaith a gafodd ei wneud a'i gwblhau yn y Cyngor yn ystod 2015-16.

9 Nodir Meysydd i'w Gwella a wnaed gan AGGCC yn ystod y flwyddyn isod.

| Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC o berfformiad 2014-15 |
|---|
| Maes 1<br>• Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu'r gwaith o gydgomisiynu gwasanaeth i bobl hŷn, a dylai'r cyngor a phartneriaid iechyd wneud hyn yn flaenoriaeth.<br>• Gweithredu'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad AGGCC yn dilyn ymweliad safle â phrosiect Gwrando, Ymgysylltu, Gweithredu, Cymryd Rhan, a chymhwyso argymhellion perthnasol o fewn gwasanaethau eraill y gwasanaethau cymdeithasol. |
| Maes 2<br>• Sicrhau bod y fframwaith sicrhau ansawdd newydd yn adlewyrchu'r dulliau o fonitro datblygiad y strategaeth plant. |
| Maes 3<br>• Parhau i ddatblygu'r trefniadau craffu.<br>• Y bwrdd rhianta corfforaethol i ddangos dulliau pendant o ymgynghori â phlant a phobl ifanc. |

Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2015-16

10 Ar 7 Gorffennaf 2015, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

## Tystysgrif cydymffurfio ar gyfer yr Archwiliad o asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o berfformiad 2014-15

11 Ar 6 Tachwedd 2015, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif Cydymffurfio ar gyfer yr archwiliad o asesiad y Cyngor o berfformiad 2014-15. Mae'r dystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

## Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

12 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghaerffili gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae Estyn yn ystyried hyn wrth werthuso perfformiad yr awdurdod.

13 Daeth Estyn i'r casgliad bod perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen wedi gwella ers 2012, sy'n golygu bod yr awdurdod yn perfformio'n llawer gwell na chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad yn nangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf hefyd. Yn achos cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn agos i gyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, yn achos cyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd islaw'r meincnod perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015.

14 Yn achos cyfnod allweddol 4, daeth Estyn i'r casgliad bod trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ac wedi cyrraedd y meincnod perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella hefyd dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n nes at y meincnod perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 1 yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac roedd gan yr awdurdod gyfartaledd uwch nag awdurdodau tebyg yn y dangosydd hwn.

15 Daeth Estyn i'r casgliad bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwella, er bod y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn aros yn debyg dros amser wrth i berfformiad yr holl ddisgyblion wella.

16 Daeth Estyn i'r casgliad bod tuedd gadarn o welliant i'w gweld o ran presenoldeb mewn ysgolion cynradd, ond mae presenoldeb dros amser yn parhau i fod yn is na chyfartaleddau Cymru. Mewn ysgolion uwchradd, mae presenoldeb wedi gostwng ychydig yn 2015 a'r lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yw'r isaf yng Nghymru.

## Nododd AGGCC fod y Cyngor wedi parhau i ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau mewn ffordd strwythuredig a threfnus yn barod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac adlewyrchwyd hyn hefyd yn yr amcanion a amlinellwyd yn y cynllun gwella sengl lleol

17 Cyhoeddodd yr AGGCC ei Hadolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-15 ym mis Hydref 2015.

18 Daeth AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor wedi parhau i ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau mewn ffordd strwythuredig a threfnus yn barod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac adlewyrchwyd hyn hefyd yn yr amcanion a amlinellwyd yn y cynllun gwella sengl lleol. Darparodd adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ddarlun cynhwysfawr o statws cyfredol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerffili. Roedd yn cynnwys ystyriaeth o flaenoriaethau a chyflawniadau'r flwyddyn flaenorol, a meysydd i'w datblygu yn y flwyddyn i ddod. Nodir bod yr adran ar y trywydd cywir i gyflawni'r cynllun ariannol tymor canolig er y cydnabuwyd bod adnoddau'n gyfyngedig a bod yr adran wedi dod yn fwy dibynnol ar geisiadau llwyddiannus am gyllid ychwanegol a grantiau.

19 Daeth AGGCC i'r casgliad bod y sylfeini cadarn a osodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol wedi galluogi'r Cyngor i wneud cynnydd o ran gwasanaethau oedolion a phlant. Roedd gwaith cynllunio clir yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer blaenoriaethu, adolygu a datblygu gwasanaethau, gan adlewyrchu anghenion lleol a newidiadau deddfwriaethol cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys ailstrwythuro timau a gwasanaethau a oedd eisoes wedi'u sefydlu yn ogystal ag ystyried ffyrdd newydd o weithio, ac roedd yn cynnwys gweithio gyda'r awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a phartneriaid yn y trydydd sector.

20 Daeth AGGCC i'r casgliad bod y strwythur rheoli corfforaethol a'r trefniadau llywodraethu yn darparu cymorth i alluogi gwasanaethau cymdeithasol i barhau i ddatblygu, ac y dylai camau i gyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd newydd wella goruchwyliaeth dros y gwasanaeth yn gyffredinol.

21 Daeth AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn gweithio mewn ffordd adeiladol â rheoleiddwyr a'i fod wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad AGGCC ar berfformiad yn 2014-15. Roedd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol yn y sector iechyd a'r trydydd sector i adeiladu ar gryfderau a threialu dulliau newydd o weithio. Er mwyn gweithio'n llwyddiannus a rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith, byddai'n hollbwysig parhau i ddatblygu'r cydberthnasau hyn.

22 Daeth AGGCC i'r casgliad bod cefnogaeth barhaus i gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg ar lefel gorfforaethol i'w gweld yn adroddiad y cyfarwyddwr, a bod cynnydd tuag at gyflawni gofynion 'Mwy na Geiriau', sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

23 Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

24 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob Cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

25 Mae ymateb ffurfiol y Comisiynydd a llythyrau a anfonwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ar gael ar wefan y Comisiynydd.

## Ymatebodd y Cyngor i'w bwysau ariannol yn 2012 drwy adolygu ei ganolfannau hamdden a'i gyfleusterau adloniant a hamdden awyr agored, ond o gofio ei sefyllfa ariannol gryfach o 2016-17 ymlaen, gall y Cyngor bellach fynd ati i adolygu ei wasanaethau chwaraeon a hamdden mewn ffordd fwy cyfannol a strategol er mwyn sicrhau y gallant, ar y cyd, ddiwallu anghenion ei ddinasyddion yn y dyfodol

26 Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliwyd adolygiad i benderfynu a oedd Strategaeth Chwaraeon a Hamdden y Cyngor yn debygol o ddiwallu anghenion y Cyngor a'i ddinasyddion yn y dyfodol. Cyflwynwyd ein hadroddiad i'r Cyngor ym mis Mai 2015.

27 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi ymateb i'r pwysau ariannol yn 2012 drwy adolygu ei ganolfannau hamdden a'i gyfleusterau adloniant a hamdden awyr agored. Ond, o gofio ei sefyllfa ariannol gryfach o 2016-17 ymlaen, gall y Cyngor bellach fynd ati i adolygu ei wasanaethau chwaraeon a hamdden mewn ffordd fwy cyfannol a strategol er mwyn sicrhau y gallant, ar y cyd, ddiwallu anghenion ei ddinasyddion yn y dyfodol.

28 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a roedd y Cyngor wedi adolygu ei gyfleusterau hamdden craidd ond nid oedd ganddo weledigaeth glir na strategaeth chwaraeon a hamdden integredig eto a oedd yn pennu cyfeiriad clir ar gyfer darpariaeth hamdden yn y dyfodol;
- b er y gwelwyd rhai enghreifftiau da o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid, nid oedd gan y Cyngor gynllun prosiect na chynllun ymgysylltu i ddatblygu strategaeth chwaraeon a hamdden integredig;
- c roedd y Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol dros y tymor canolig, ond nid oedd wedi mynd i'r afael yn llawn eto â'r risgiau ariannol cynyddol mewn gwasanaethau chwaraeon a hamdden;
- ch nes yn ddiweddar, nid oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau chwaraeon a hamdden mewn ffordd ddigon strategol, ond roedd y Cyngor bellach yn atgyfnerthu ei drefniadau rheoli prosiect er mwyn helpu i ddatrys hyn.

## Roedd y Cyngor yn ystyried opsiynau ar gyfer ei wasanaeth gwastraff ac ailgylchu mewn ffordd bwyllog ac aeddfed, ac roedd wedi nodi meysydd y mae angen eu hatgyfnerthu

29 Gwnaethom nodi nifer o agweddau cadarnhaol ar ddull gweithredu'r Cyngor, gan gynnwys:

- a Roedd perchenogaeth gorfforaethol glir ymhlith aelodau a swyddogion dros y dull gweithredu hyd yma.
- b Roedd swyddogion ac uwch aelodau cabinet yn deall y rhesymeg dros ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer ei wasanaethau gwastraff.
- c Roedd gan y Cyngor swyddogion gwybodus a phrofiadol o fewn y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu.
- ch Ymgysylltwyd yn gynnar ag uwch swyddogion allweddol, er enghraifft, o'r adran gyllid a chaffael, wrth ystyried gwahanol opsiynau.
- d Roedd y Cyngor yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP).
- dd Roedd swyddogion wedi herio ymarferion modelu'r Adnodd Dadansoddi Gwasanaethau Carreg y Drws mewn ffordd adeiladol. Roedd yr her hon wedi'i seilio ar yr awydd i sicrhau bod cyd-destun lleol Caerffili yn ganolog i unrhyw ystyriaeth a roddwyd i newid gwasanaethau, gan gydnabod bod lefelau boddhad trigolion ac aelodau â'r gwasanaeth presennol yn dda.

e Nid oedd y Cyngor wedi aros am ganlyniad ei waith gyda WRAP cyn mynd i'r afael â'r dirywiad ym mherfformiad y gwasanaeth ailgylchu. Cymerodd gamau rhagweithiol i fynd i'r afael â phroblemau o ran lefelau uchel o halogiad mewn deunydd ailgylchu, a oedd wedi cyfrannu at y dirywiad yn ei berfformiad ailgylchu yn 2014-15.

f Roedd aelodau a swyddogion wedi mynd ati'n rhagweithiol i ddysgu o brofiad cynghorau eraill a oedd wedi newid eu trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu, datblygu Canolfan Trosglwyddo Gwastraff, a/neu ddatblygu neu ehangu Canolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig.

ff Roedd perfformiad ailgylchu diwedd blwyddyn amodol y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cyfateb i tua 62 y cant, gan ragori ar y targed statudol o 58 y cant. Y targed ailgylchu statudol nesaf yw 64 y cant yn 2019-20, felly roedd y Cyngor eisoes yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyrraedd y targed hwn.

30 Nododd ein hadolygiad rai meysydd y byddai'n fuddiol i'r Cyngor eu hatgyfnerthu neu'u datblygu ymhellach yn ein barn ni, er enghraifft:

a Er nad oedd y Cyngor wedi llunio cynllun prosiect manwl i lywio ei weithgareddau hyd yma, nid oedd hyn wedi llesteirio cynnydd y Cyngor. Fodd bynnag, byddai cynllun prosiect ffurfiol yn fuddiol wrth i'r Cyngor wneud penderfyniadau allweddol am ei wasanaethau gwastraff, er mwyn hwyluso gwaith monitro parhaus a chamau gweithredu, amserlenni a phenderfyniadau allweddol.

b Roedd gan y Cyngor gynllun prosiect drafft ac roedd angen diweddaru ac ehangu'r cynllun hwn wrth i wybodaeth ac amseriadau ddod yn fwy sicr. Cydnabu'r Cyngor fod angen cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu arno er mwyn gwneud hyn, a gwnaethom annog y Cyngor i ddatblygu hwn fel rhan o'i gynllun prosiect.

c Dylai'r Cyngor sicrhau bod asesiad cadarn a manwl o opsiynau yn cael ei gynnal, sy'n gwerthuso effaith, risg, cynaliadwyedd, perfformiad disgwyliedig a chost pob opsiwn. Mae'n bwysig bod swyddogion yn rhoi arfarniad llawn a chadarn o opsiynau i aelodau er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg am ofynion y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn y dyfodol. Mae'n rhaid i unrhyw opsiynau a gyflwynir i aelodau ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

ch Er mwyn datblygu opsiwn amgen yn lle contract cyfredol y Cyfleuster Adfer Defnyddiau â Chyngor Dinas Caerdydd, roedd y Cyngor yn ystyried gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylai fuddsoddi mewn Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn ystod hydref 2016. Yn ôl y cynllun prosiect drafft, byddai'r Cyngor yn penderfynu p'un a ddylai newid y trefniadau casglu ai peidio yn ystod hydref 2017. Yn ddelfrydol, dylai'r Cyngor ystyried gwneud y ddau benderfyniad allweddol hyn ynglŷn â'i weithgareddau gwastraff ac ailgylchu ar yr un pryd. Gallai penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch trefniadau casglu'r Cyngor ddylanwadu ar gynllun yr orsaf trosglwyddo gwastraff. Roedd angen i'r Cyngor sicrhau ei hun ei fod wedi ystyried yr holl bosibiliadau a goblygiadau sy'n gysylltiedig â gwneud y penderfyniadau allweddol hyn ar gyfnodau gwahanol. Dim ond costau lefel uchel ar gyfer datblygu gorsaf trosglwyddo gwastraff newydd a ddarparwyd gan adroddiad modelu'r Adnodd Dadansoddi Gwasanaethau Carreg y Drws, a chydnabu'r Cyngor fod angen achos busnes manylach arno.

## Roedd y Cyngor wedi gwneud gwelliannau pellach i'w drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd data, sy'n golygu bod data yn fwyfwy cadarn

31 Ym mis Hydref 2015, gwnaethom asesu cadernid trefniadau'r Cyngor i gadarnhau bod data ar berfformiad yn cael eu casglu, eu cyfrifo a'u cofnodi yn gywir ac yn amserol. Gwnaethom gyflwyno'r canfyddiadau i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Tachwedd 2015.

32 Ar draws y chwe dangosydd perfformiad a archwiliwyd gennym, ni welwyd unrhyw broblemau mawr o ran cywirdeb na phrosesau, sy'n awgrymu bod trefniadau corfforaethol yn effeithiol. Gwnaethom nodi nifer o gryfderau mewn perthynas â threfniadau corfforaethol y Cyngor, fel ei asesiad risg o ddangosyddion cenedlaethol a lleol, y defnydd a wneir o ffurflenni casglu ac asesu data safonol, yn ogystal â pherchenogaeth glir dros ddata ar berfformiad o fewn y cyfarwyddiaethau.

33 Gwnaethom awgrymu rhai ffyrdd y gallai'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau o ran ansawdd data ymhellach. Er enghraifft, uwchgyfeirio achosion lle caiff ffurflenni corfforaethol eu cwblhau'n hwyr neu lle na chânt eu cwblhau o gwbl, a chanolbwyntio ar ddiffiniadau o ddangosyddion lleol er mwyn sicrhau y caiff systemau eu dylunio i gasglu data perthnasol mor gywir â phosibl. Mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa well i atgyfnerthu'r ffordd y mae'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad i wella gwasanaethau.

# Y defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

34 Ar 27 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

## Roedd gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol effeithiol a hanes o sicrhau arbedion ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid oedd ganddo gynllun ariannol tymor canolig cynhwysfawr a thameidiog oedd ymdrechion i fonitro cynnydd o ran arbedion.

35 Ym mis Ebrill 2015, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol o'r enw 'Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru'. Roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaed ym mhob un o'r cynghorau lleol yng Nghymru.

36 O gofio'r pwysau parhaus ar gyllid i gynghorau yng Nghymru, ystyriwyd a oedd gan y Cyngor drefniadau priodol ar gyfer cynllunio, sicrhau a chynnal ei gydnerthedd ariannol yn y tymor canolig (tair i bum mlynedd ymlaen llaw fel arfer). Cynhaliwyd adolygiad rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2015 a gwnaed gwaith dilynol ar y materion a nodwyd yn ein gwaith ar gydnerthedd ariannol yn 2014-15. Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar y graddau y cyflawnwyd cynlluniau arbedion 2014-15 a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16. Cyflwynwyd yr adroddiad lleol hwn i'r Cyngor ym mis Ebrill 2016.

37 Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol effeithiol a hanes o sicrhau arbedion ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid oedd gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig cynhwysfawr a thameidiog oedd ymdrechion i fonitro cynnydd o ran arbedion. Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein canfyddiadau mewn perthynas â threfniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol:

- a mae gan y Cyngor hanes o weithredu o fewn ei gyllideb, ond nid oedd ei gynllun ariannol tymor canolig na'i gynlluniau arbed ategol ar gyfer y dyfodol wedi'u datblygu'n llawn eto;
- b roedd trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn effeithiol ar y cyfan;
- c roedd trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor yn gadarn ar y cyfan, ond nid oedd adroddiadau monitro arbedion rheolaidd ar gyfer y Cyngor cyfan yn cael eu cyflwyno i aelodau.

# Llywodraethu

## Ymateb y Cyngor i'n hargymhellion a'n cynigion ar gyfer gwella oedd i gefnogi gwelliannau i'w drefniadau hunanwerthuso a chraffu, ond roedd angen gwneud rhagor o waith er mwyn ymdrin yn llawn â gwendidau ym meysydd Archwilio Mewnol ac Adnoddau Dynol, yr oedd rhai ohonynt yn hirsefydledig

38 Yn ystod gwanwyn 2016, gwnaethom gynnal adolygiad er mwyn asesu cynnydd y Cyngor wrth weithredu argymhellion o'n gwaith blaenorol. Gwnaethom hyn drwy wneud gwaith dilynol penodol er mwyn pennu cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed mewn meysydd i'w gwella a ddeilliodd o'r adroddiad ar yr Arolygiad Arbennig a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, yr Adroddiad Dilynol ar yr Arolygiad Arbennig ym mis Ionawr 2015, a gwaith archwilio blaenorol yn ymwneud â:

- a hunanwerthuso;
- b adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu;
- c archwilio mewnol; a
- ch chraffu.

39 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad mai ymateb y Cyngor i'n hargymhellion a'n cynigion ar gyfer gwella oedd i gefnogi gwelliannau i'w drefniadau hunanwerthuso a chraffu, ond roedd angen gwneud rhagor o waith er mwyn ymdrin yn llawn â gwendidau ym meysydd Archwilio Mewnol ac Adnoddau Dynol, yr oedd rhai ohonynt yn hirsefydledig.

40 Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- a roedd gan y Cyngor drefniadau ar waith i ymdrin ag argymhellion adolygu a chynigion ar gyfer gwella allanol, ond roeddem yn pryderu nas defnyddiwyd yn effeithiol i sicrhau gwelliant mewn rhai meysydd allweddol â blaenoriaeth;
- b roedd y Cyngor wedi atgyfnerthu ei brosesau hunanwerthuso, er bod lle i sicrhau bod problemau hanfodol o ran y gweithlu yn cael eu nodi a'u datrys yn gyson drwy gynlluniau gwasanaeth;
- c erbyn hyn mae gan y Cyngor strategaeth Adnoddau Dynol gytûn, ac roedd gweithgareddau cynllunio'r gweithlu ar waith, ond wrth i'r Cyngor ddatblygu ei weledigaeth ac ystyried dyfodol y sefydliad, byddai'n elwa o nodi gofynion ei weithlu'n fwy strategol er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon;

1 Oni nodir fel arall, mae'r 'Rhaglen' yn cwmpasu'r pwyllgorau a'r gweithgorau, yr aelodau a'r staff, a'r model cyflenwi a gwasanaeth cyffredinol.
2 Mae'r cytundeb Adran 33 yn darparu sail ffurfiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Gall y partneriaid ddefnyddio cytundeb adran 33 fel ffordd o greu cyllid refeniw a chyfalaf cyfunol. Mae rheolau rheoli ariannol a chyfrifyddu ariannol y Cyngor yn berthnasol. Felly, gall y gwasanaeth ar y cyd adennill TAW yn ogystal â defnyddio hyblygrwyddau ariannol eraill sydd ar gael i gyrff llywodraeth leol.
3 At ddibenion yr adroddiad hwn, mae cyfeiriadau at Bwyllgorau'r Rhaglen yn cwmpasu Cydbwyllgor Eiddilwch Gwent, y Grŵp Cydgysylltu Gweithredol, yr amrywiol is-grwpiau arbenigol a'r strwythurau gweithredu lleol.

ch er bod rhai arwyddion bod y Cyngor yn dechrau gwella'r defnydd o'i wasanaeth Archwilio Mewnol, bu cynnydd yn araf tan yn fwy diweddar, a byddai'r Cyngor yn elwa o ddatblygu fframwaith sicrwydd ehangach fel y gall fod yn siŵr ei fod yn ymdrin â'i risgiau allweddol; ac

d roedd y Cyngor yn cymryd camau i wella effeithiolrwydd ei system graffu, ond ni fyddai effaith lawn y newidiadau i'w gweld tan yn hwyrach eleni.

## Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi dangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cymunedol cynyddol, ond nid oedd wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod canlyniadau yn bendant wedi gwella, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ar ddyfodol y rhaglen

41 O fis Ebrill 2011 dechreuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen roi model integredig uchelgeisiol o ofal ar waith, o'r enw Rhaglen Eiddilwch Gwent (y Rhaglen)[1]. Ariannwyd y Rhaglen gan fenthyciad Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru a chyfraniadau gan wahanol bartneriaid i greu cronfa gyfunol.

42 Mae gan y Rhaglen statws cyfreithiol o dan gytundeb partneriaeth Adran 33[2] rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r pum cyngor yng Ngwent. Parodd y cytundeb am dair blynedd gan ddechrau ym mis Ebrill 2011. Ffurfiwyd Cydbwyllgor Eiddilwch Gwent fel corff gwneud penderfyniadau a chanddo atebolrwydd ffurfiol o dan y cytundeb Adran 33. Cefnogai Grŵp Cydgysylltu Gweithredol, amrywiaeth o is-grwpiau arbenigol a strwythurau gweithredu lleol waith Cydbwyllgor y Rhaglen Eiddilwch hefyd[3].

43 Ym mis Tachwedd 2012, adolygwyd y Rhaglen a nodwyd bod y partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Cydnabuwyd mai megis cychwyn roedd y gwaith o weithredu'r Rhaglen a'i bod yn wynebu heriau i sicrhau bod y Rhaglen yn gynaliadwy, newid arferion gwaith sefydledig a dangos ei heffaith.

44 Canolbwyntiodd ein hadolygiad diweddaraf ym mis Mai 2015 ar ba un a oedd y Rhaglen wedi sicrhau gwelliannau yn unol â disgwyliadau sefydliadau unigol.

45 Daethom i'r casgliad bod y Rhaglen wedi dangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cymunedol cynyddol, ond nad oedd wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod canlyniadau yn bendant wedi gwella, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ar ddyfodol y rhaglen.

46 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Llwyddodd y Rhaglen i ddwyn ynghyd bartneriaid a fuddsoddodd amser ac adnoddau i wella canlyniadau i bobl oedrannus eiddil, ond nid oedd y nodau ariannol wedi'u cyflawni ac roedd yn dal i fod yn anodd i bartneriaid ddarparu tystiolaeth o ganlyniadau.

b Mae trefniadau llywodraethu yn ystod oes y rhaglen wedi bod yn ddigonol ar y cyfan ond gallai'r Rhaglen fod wedi ymgysylltu'n well â phartneriaid, wedi elwa ar wybodaeth gliriach ac wedi bod yn fwy agored ynglŷn â'i busnes. Nodwyd y canlynol gennym:

– bod y trefniadau llywodraethu yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau'n brydlon ond nad oedd sefydliadau partner bob amser yn cael eu hysbysu'n ddigonol am faterion pwysig a oedd yn effeithio ar y Rhaglen, fel y tanwariant mawr sy'n dod i'r amlwg;

– roedd y trefniadau adrodd ariannol yn y Rhaglen yn ddigonol ond nid oedd adrodd ar berfformiad yn addas at y diben;

– dechreuodd y broses o dryloywder cyhoeddus a chofnodi penderfyniadau yn dda ond aeth yn wannach dros amser;

– nid oedd gwaith craffu arferol ar benderfyniadau gan Gydbwyllgor Eiddilwch Gwent yn gadarn, ond byddai'r rhan fwyaf o bartneriaid yn cyflwyno adroddiadau blynyddol drwy eu trefniadau craffu eu hunain.

c Gwnaeth y Rhaglen elwa ar ymrwymiad cryf ac roedd ar gam allweddol ar ei daith ond roedd angen gweledigaeth glir i lwyddo. Nodwyd y canlynol gennym:

– roedd ymrwymiad cryf i'r Rhaglen ymhlith y sefydliadau partner, roedd angen ailgadarnhau hyn yng nghyd-destun yr heriau ariannol a gweithredol a oedd yn wynebu'r sefydliadau unigol; ac

– roedd cyfeiriad y Rhaglen yn y dyfodol yn aneglur, roedd y bartneriaeth ar gam allweddol ac nid oedd y partneriaid wedi cytuno eto ar weledigaeth glir, y byddai angen canlyniadau a buddiannau mesuradwy arni.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, o dan rai amgylchiadau, gynnal archwiliadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2015-16

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a’m Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i’m harchwiliad, rwyf o’r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o’r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau’r Cyngor a’r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae’n ofynnol i’r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy’n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni;
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau’r flwyddyn ariannol y mae’n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae’r Cyngor yn gyfrifol am baratoi’r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae’r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae’n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o’r Mesur, archwilio’r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Martin Gibson, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2014-15

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2014-15, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 9 Hydref 2015, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig;
- cyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Sara-Jane Byrne, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Keith Reynolds
Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

27 Tachwedd 2015

Annwyl Gynghorydd Reynolds

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 9 Medi 2015, ac mewn llythyr diweddaru ar 29 Medi 2015.

Gwnaed addasiad sylweddol o £30m i'r datganiad cyfrifon mewn perthynas â'r prisiad o Anheddau'r Cyngor, a gynyddodd pan ddefnyddiwyd y wybodaeth ariannol fwy diweddar i ddiweddaru'r prisiad.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

## Nid wyf wedi cyhoeddi tystysgrif eto i gadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon wedi'i gwblhau, ond yn dilyn y dyfarniad llys diweddar yn yr achosion yn erbyn aelodau penodol o'r uwch dîm rheoli, rwy'n bwriadu cyhoeddi'r dystysgrif hon yn y dyfodol agos

Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn gynnar yn 2016 unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Lynn Pamment**
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill;<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd – y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol;<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau | A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a’r sgiliau cywir i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia.<br>Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a’u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Rydym yn argymell felly:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i’w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (mae gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid yn wasanaethau a gomisiynir).<br>A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod ffocws ar gamau gweithredu byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn rhwystro’r gwaith o ddatblygu consortia rhanbarthol effeithiol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Rydym yn argymell felly:<br>• Gan na fydd unrhyw weithgareddau posibl i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu’n llawn tan 2020, y dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu, ehangu cwmpas a chyllido consortia rhanbarthol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol. |

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th>Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Mehefin 2015</td><td>Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar</td><td>A3 Datblygu mwy o gydberthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion.<br>Cyfrannodd llawer o bartneriaid gwella ysgolion at y gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond nodwyd gennym nad oedd hyn wedi arwain at ddatblygu cydberthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Rydym yn argymell felly:<br>• Y dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi).<br>• Y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o:<br>– rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion;<br>– datblygu perthnasau cydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a<br>– chynnal adolygiadau o'r system gyfan ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.<br>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus.<br>Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru oll wedi'i chael hi'n anodd recriwtio uwch arweinwyr ar gyfer addysg a nodwyd gennym nad oes fawr ddim wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg;<br>• y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwch arweinwyr.</td></tr>
</table>

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol.<br>Er bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud, nodwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cwbl effeithiol eto (paragraffau 3.2 i 3.36).<br>Rydym yn argymell felly y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol:<br>• wella eu defnydd o hunanwerthuso ar gyfer eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu a'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes ac i gefnogi adolygiadau blynyddol o ddulliau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella eu dulliau rheoli perfformiad gan gynnwys cynllunio busnes yn well, defnyddio mesurau perfformiad eglur a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau cyllidebu, monitro ac adrodd ariannol yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys cyllid grant a wariwyd trwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol, yn ogystal â chraffu ar berfformiad awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod y trefniadau a'r penderfyniadau y mae consortia yn eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;<br>• adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a mynd i'r afael ag ef; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn eglur a bod yr holl staff yn ymwybodol o'r swyddogaethau a gyflawnir;<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu;<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor.<br>A3 Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr mewn modd diogel drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth a'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr;<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A5 Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwwyd ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hybu diogelu.<br>A6 Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlyno:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;<br>• perfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.<br>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn;<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn;<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a'r rhanddeiliaid.<br><br>A2 Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethau i bobl hŷn yn well drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol;<br>• ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau.<br><br>A3 Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn.<br><br>A4 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:<br>• nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithiol arnynt.<br><br>A6 Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:<br>• bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif ffrydio i dderbyn cyllid craidd;<br>• gwella'r ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• bennu gweledigaeth gytunedig i gynghorau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal;<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y Cyngor a'i flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau hamdden. Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith gwahanol opsiynau ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus;<br>• cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A3 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol, a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac<br>• effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth bwyllgor(au) craffu;<br>• darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill;<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru